LLEISIAU DYFFRYN DULAS

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/


CYCHWYN YSGOL

Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol newydd, rydym yn croesawi Eddie atom yn rhan amser yn y boreau. Hefyd, croeso i Ezra a Violet sydd wedi cychwyn yn llawn amser. Ar ddiwedd tymor yr Haf, croesawyd Llywelyn atom hefyd, sydd ym Mlwyddyn 1 eleni. Dwi'n siwr byddwch wrth eu boddau yma yn Ysgol Dyffryn Dulas.



CYNGOR YSGOL





Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a etholwyd gan eu cyd-ddisgyblion i wasanaethu ar Gyngor yr Ysgol eleni. Mae'r rôl hon yn gyfle pwysig i leisio barn y disgyblion a chyfrannu at ddatblygiad bywyd yr ysgol. Edrychwn ymlaen at weld y syniadau creadigol, y mentrau newydd a'r effaith gadarnhaol y byddant yn ei chael ar gymuned ein hysgol dros y flwyddyn sydd i ddod. Pob lwc iddynt yn eu rolau newydd

SWYDDOGION DIOGELWCH Y FFORDD

Eleni mae 3 o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi cael ein penodi i fod yn Swyddogion Iau Diogelwch y Ffordd. Ei swydd nhw yw cadw pawb yn saff pam rydym yn gadael tir yr ysgol. Maent wedi cael hyfforddiant yn barod gan Swyddogion Diogelwch y Ffordd Gwynedd



MEDI A HYDREF 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

SIOE CORRIS

Bu disgyblion yr ysgol yn brysur yn paratoi at Sioe Corris. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ar ddiwrnod Sioe Corris ar y 5ed o Fedi.









DIWRNOD OWAIN GLYNDWR

Cawsom ddiwrnod bendigedig yn dathlu ac yn cwblhau tasgau amrywiol a phawb wedi gwisgo dillad coch a melyn, lliwiau'r faner.



AILGYCHWYN Y GALON

Mwynhaodd dysgwyr yr ysgol hyfforddiant CPR ar lein yn ddiweddar, a gyflwynwyd gan Achub Bywyd Cymru fel rhan o raglan Re-Start a Heart Cymru. Datblygodd ein dysgwyr sgiliau a gwybodaeth gwerthfawr allai helpu achub bywyd.

ACHUB BYWYD CYMRU
SAVE A LIFE CYMRU

MEDI A HYDREF 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

GIG BWNCATH



Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 o ysgolion dalgylch Dysynni gyfle i ymweld ag Ysgol Uwchradd Tywyn ar brynhawn dydd Gwener i fwynhau perfformiad arbennig gan Elidyr Glyn, aelod o'r grŵp poblogaidd Bwncath. Yn ystod y sesiwn, cyflwynodd Elidyr ei hun i'r disgyblion a rhannodd straeon am ei yrfa gerddorol, cyn perfformio detholiad o ganeuon y band. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac wedi cael cipolwg diddorol ar fyd cerddoriaeth Gymraeg gyfoes.



MR PHORMULA

Daeth Ed Holden (Mr Phormula) i ymweld â'r ysgol ar ddechrau mis Medi, gan roi cyfle i'r plant hŷn arbrofi gyda geirfa a syniadau creadigol mewn grwpiau. Buont yn cydweithio i gyfansoddi cân wreiddiol yn seiliedig ar ein thema, Ein Dyfodol Ni. Enw'r gân a grëwyd yw Rapwyr Robotig Corris, ac roedd y profiad yn ffordd hwyliog a chyffrous o ddatblygu sgiliau iaith, creadigrwydd a gwaith tîm.



PEL DROED YR URDD

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y ddwy ysgol ddiwrnod llawn hwyl a chyffro wrth gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth bêl-droed cymysg yr Urdd yn y Bala ar 18fed o Fedi. Bu'r timau yn cystadlu'n frwd drwy gydol y dydd, gan ddangos sgiliau pêl-droed gwych. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac wedi gwneud eu gorau glas.



MEDI A HYDREF 2026


YSGOL DYFFRYN DULAS


CODIO



Fel rhan o'n themai 'Ein Dyfodol Ni' daeth Alex Clewitt draw i''r ysgol ar ddydd Mercher Medi 30ain er mwyn gwneud gweithdy codio lego Spike. Cafodd blynyddoedd 3-6 fore gwych o ddysgu sut i codio periant Lego i symud o un lle i'r llall, yna i ddatrys problemau i symud gwrthrych o un lle o'r llall. Yna ar ôl cinio dysgodd yr holl ysgol sut i symud pel robotig 'shero bolt' ar hyd llawr y neuadd. Yna aethon ymlaen i weithio ar Lego essential ble cafodd y plant gyfle i adeiladau pabell ac yna codio i greu larwm os oedd anghenfil yn dod yn agos. Diolch yn fawr iawn i Alex, roedd y plant a'r athrawon wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr ac wedi dysgu llawer iawn am dechnoleg a chodio.

Mae disgyblion y dosbarth hynaf wedi cymryd rhan mewn dwy sesiwn ar-lein gyffrous gydag E-sgol, gan ddatblygu eu sgiliau codio a dysgu sut i ddefnyddio micro:bit fel rhan o weithgareddau STEM. Yn ystod y sesiynau, bu'r disgyblion yn casglu data am lefelau golau mewn gwahanol rannau o'r ysgol gan ddefnyddio'r dyfeisiau micro:bit. Wedyn, buont yn dadansoddi a chymharu eu canfyddiadau â data a gasglwyd gan ddisgyblion o ysgolion eraill. Roedd yn brofiad gwerthfawr a diddorol a helpodd y disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o dechnoleg, gwyddoniaeth a gwaith ymchwil.





BORE COFFI MACMILLAN






BORE COFFI MWYA'R BYD
WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

Cynhaliwyd ein bore coffi ar gyfer staff a disgyblion er mwyn codi arian i elusen Macmillan. Bu'r disgyblion yn brysur yn addurno cacennau y diwrnod cynt ar gyfer y bore.

YSGOL DYFFRYN DULAS

GWEITHDY SENEDD



Daeth Bethan o'r Senedd yng Nghaerdydd i ymweld a'r dosbarth mawr yn ddiweddar i ddysgu'r plant a beth yn union sydd yn mynd ymlaen yn y Senedd. Dysgodd y plant bod 96 aelod o'r Senedd a beth yw eu gwaith. Hefyd cawsant ffug etholiad er mwyn deall y broses o ethol aelod seneddol. Roedd y plant wedi mwynhau dysgu am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth ac ambell un ac uchelgais i weithio yn y Senedd nawr!







DIWRNOD IECHYD MEDDWL

Ar yr 8fed o Hydref, dathlodd y dosbarth sylfaen 'Diwrnod Melyn'. Roedd y diwrnod yn gyfle i hyrwyddo iechyd meddwl, lles a hapusrwydd drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwyliog a chreadigol. Roedd y dysgwyr wedi cael cyfle i ddewis eu gweithgareddau 'melyn' eu hunain. Ymhlith y gweithgareddau roedd creu cymeriadau yn y toes melyn, adeiladu robot melyn, chwarae gemau hwyl yn yr awyr agored gan ddefnyddio racedi, peli, cylchoedd a sialc melyn, yn ogystal â chymryd rhan mewn sesiwn ioga. Bu rhai o'r dysgwyr hefyd yn mwynhau chwarae gyda'r Bee-Bots a chymryd rhan mewn heriau gyda balŵns melyn. Dywedodd y disgyblion eu bod wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr. Roedd Pegi wrth ei bodd yn bownsio'r balŵns i fyny i'r awyr. Dywedodd Ezra: "Roedd y balŵn yn mynd i fyny'n uchel iawn ac yn disgyn yn ôl i lawr, ac roedd yn rhaid i fi ei ddal yn gyflym!" Dywedodd Elis: "Wnaethon ni chwarae gyda'r Bee-Bots ac roedd hynny'n lot o hwyl!" Roedd y diwrnod yn llawn hwyl, chwerthin a gweithgareddau difyr, a chafodd pawb amser bendigedig yn dathlu ac yn dysgu gyda'i gilydd.

MEDI A HYDREF 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

Bu disgyblion yr ysgol yn rhan yn Niwrnod Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan wisgo coch a chymryd rhan mewn gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharch. Roedd yn ddiwrnod gwerthfawr a helpodd i atgyfnerthu ein neges fod hiliaeth ddim yn cael lle yn ein hysgolion nac yn ein cymdeithas.

DANGOS CERDYN COCH I HILIAETH



DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH



SHW MAE SU'MAI

Rydym yn falch o gymryd rhan yn Niwrnod Shwmae Su'mae, sef diwrnod sy'n annog pawb i ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg. Trwy weithgareddau hwyliog, bu'r plant yn datblygu eu hyder a'u balchder yn ein hiaith. Roedd yn wych gweld brwdfrydedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol.





DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn ystod yr wythnos olaf cyn hanner tymor yn yr ysgol.
Thema y disgyblion hynaf oedd 'Ein Dyfodol Ni' a thema y disgyblion ieuengaf oedd 'Y Creu'.

Casglwyd eitemau ar gyfer Banc Bwyd Bro Ddyfi.

YSGOL DYFFRYN DULAS

COGURDD A POBURDD





Bore Dydd Mercher cyn gwyliau hanner tymor, cymerodd 4 o ddisgyblion rhan yn y gystadleuaeth Cogurdd a Poburdd gyda disgyblion Ysgol Pennal. Roedd y safon yn arbennig o dda a pawb wedi gwneud eu gorau glas. Llongyfarchiadau i pob un o'r disgyblion am gystadlu.



COGURDD - 1af Amy. 2il Lucy, 3ydd Bleddyn

POBURDD - 1af Myrtle, 2il Anya., 3ydd Amy

GWERSI DIGIDOL A SBAENEG





Mae Mrs Jane Byrne o Ysgol Uwchradd Tywyn wedi bod yn dod i'r ysgol ar foreau Mercher yn ddiweddar. Mae hi wedi bod yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ac yn dysgu sgiliau digidol trwy sesiynau Sbaeneg. Mae'r disgyblion wedi mwynhau'r sesiynau ac yn edrych ymlaen i wneud cyflwyniad i flwyddyn 5 a 6 Ysgol Pennal yn y flwyddyn newydd.